Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

# Ymateb Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i: Swyddfa Gartref - Ymgynghoriad ar gynigion deddfwriaeth newydd ynghylch cyllyll i fynd i'r afael â'r defnydd o machetes ac eitemau llafnog eraill mewn troseddau

Yn cau 06 Mehefin 2023
Ymateb a gyflwynwyd drwy'r arolwg ar-lein.

## Cwestiynau:

**C1. A ydych yn cytuno y dylai'r llywodraeth gymryd camau pellach i fynd i'r afael â throseddau cyllyll, ac yn arbennig y defnydd o machetes a chyllyll mawr eraill mewn troseddau?**
Ydw

**Rhowch resymau** (uchafswm 250 o eiriau)
Mae cyllyll yn peri risg o anaf trwy ymosodiad bwriadol fel troseddau cyllyll ond hefyd trwy ddamweiniau gan bobl sy'n eu cario neu mewn lleoliadau llety. Gall bygythiad posibl â chyllell arwain at reoli gweithredoedd rhywun neu at gymryd rheolaeth dros eu corff trwy rym neu trwy fygwth grym. Dylai sicrhau nad oes mynediad cyffredinol at gyllyll helpu i atal unrhyw ddamweiniau a lleihau pa mor rhwydd yw hi i gael mynediad at eitemau llafnog.

**Cynnig 1 - Gwahardd rhai mathau o gyllyll a machetes yr ydym yn awgrymu nad oes ganddynt unrhyw ddefnydd ymarferol ac sy'n ymddangos fel pe byddent wedi'u dylunio i edrych yn fygythiol ac yn addas ar gyfer ymladd.**

**C2. A ydych yn cytuno â'r cynnig?**
Ydw

**Rhowch resymau** (uchafswm 250 o eiriau)
Mewn Egwyddor, rydym yn cytuno â'r cynnig hwn. Fodd bynnag, mae rhai eitemau llafnog fel pladuriau yn ddefnyddiol ym maes ffermio, yn enwedig ffermio organig lle cânt eu defnyddio i leihau lledaeniad planhigion fel danadl ac ysgall heb fod angen defnyddio plaladdwyr a chemegion.

**C3. O edrych ar y nodweddion cyffredin sy'n bresennol yn y cyllyll a'r machetes rydym yn cynnig eu gwahardd, a ydych yn cytuno y dylai unrhyw ddisgrifiad cyfreithiol gyfeirio at:**

**a) Yr erthygl yn cynnwys ymylon torri llyfn a danheddoga)**
Ydw

**Rhowch resymau** (uchafswm 250 o eiriau)
O ran y cyllyll a'r machetes sy'n cael eu trafod, byddai hyn yn debyg o fod yn briodol, ond gallai fod gwerth ystyried bod â disgrifiad sy'n caniatáu ar gyfer ymylon torri llyfn a/neu ddanheddog.

**b) Yr erthygl yn cynnwys mwy nag un twl**
Nac ydw

**Rhowch resymau** (uchafswm 250 o eiriau)
Mae steil cyllyll a llafnau yn newid dros amser ac os oes disgrifiad o fwy nag un twll, gallai hynny ganiatáu bwlch lle caiff cyllyll eu creu heb y tyllau. Yn ogystal, fel arfer mae gan bladuriau a ddefnyddir i ffermio ddau dwll ar y llafn er mwyn clymu'r carn (neu goes y bladur) iddo, a gallu ei addasu at ddibenion sefydlogrwydd.

**c) Mae'r erthygl o hyd penodol**
Nac ydw

**Rhowch resymau** (uchafswm 250 o eiriau)
Gall eitem lafnog o unrhyw hyd fod yn arf ac achosi anaf a marwolaeth, fel a welir gydag anafiadau a achosir gan sgriwdreifar slot (a gaiff ei alw'n gyffredin yn sgriwdreifar pen fflat). Mae eitemau llafnog llai yn fwy tebygol o fod yn hawdd i'w cuddio hefyd ac felly bydd mwy o risg o'u defnyddio'n anfwriadol na'r eitemau llafnog mwy. Er enghraifft, mae'n amhosibl cuddio pladur neu bladur fach wrth gerdded i lawr y stryd, ac mae'r un peth yn wir am machetes neu lafnau mwy fel cleddyfau. Mae llafnau a gaiff eu defnyddio gan ddiwydiannau eraill hefyd fel gwaith coed neu ar gyfer hobïau fel naddu pren a thorri papur.

**d) A oes unrhyw nodweddion eraill y dylid eu cynnwys yn y disgrifiad cyfreithiol? Rhowch resymau** (uchafswm 250 o eiriau)
Rydym yn credu y dylid cynnwys rhywbeth am y bwriad o achosi niwed, p'un a fydd hynny er mwyn gwaethygu sefyllfa neu ddefnyddio arfau i amddiffyn eu hunain.

**C4. O edrych ar hyd y mathau o gyllyll a machetes yr ydym yn bwriadu eu gwahardd, rydym yn gwahodd barn ynghylch a ddylai'r hyd lleiaf fod:**
a) 8"(20.32cm)
b) 9" (22.86cm)
c) 10" (25.4 cm)
d) **Unrhyw hyd arall? Ydw**

**Rhowch resymau** (uchafswm 250 o eiriau)
Gellir defnyddio unrhyw lafn o unrhyw hyd fel arf ac achosi anaf neu arwain at farwolaeth. Byddem yn awgrymu y dylid cyfyngu'r hyd i 1" neu 2cm, os oes angen nodi hyd. Rydym yn deall bod y cynnig yn canolbwyntio ar eitemau llafnog mwy fel machetes ond rydym yn teimlo y byddai cyfyngu i'r eitemau mwy yn unig yn golygu y byddai modd defnyddio eitemau llafnog a chyllyll llai sy'n hawdd eu cuddio a'u cadw'n gyfreithlon yng nghartrefi pobl.

**C5. Hoffem ddeall a oes angen machetes a chyllyll awyr agored mawr yn y DU ar hyn o bryd ac i ba raddau. Rhowch resymau** (uchafswm 250 o eiriau)
Caiff pladuriau a phladuriau bach eu defnyddio ym maes ffermio organig a mathau eraill o ffermio lle mae plaladdwyr a chemegion eraill yn cael eu hosgoi. Mae angen llafnau a pheiriannau bach ar ffurf bwyell ar gyfer plygu gwrychoedd sy'n elfen allweddol o reoli gwrychoedd. Er bod modd eu defnyddio mewn ffyrdd dilys, dylent gael eu cadw'n ddiogel dan glo pan nad oes eu hangen. Caiff pladuriau a phladuriau bach eu defnyddio ar ddiwedd y gwanwyn a thrwy'r haf, a chaiff offer plygu gwrychoedd eu defnyddio rhwng mis Hydref a mis Mawrth.

Y diwydiant arall sy'n defnyddio, neu'n debygol o ddefnyddio, llafnau mwy yw seiri coed a phobl sy'n gweithio gyda phren, neu rai sy'n ymwneud â diwydiannau celf mwy arbenigol fel cerflunwyr neu gerfwyr iâ.

**Cynnig 2 – Pŵer i atafaelu a chadw/dinistrio rhai eitemau llafnog a gedwir yn breifat os yw'r heddlu mewn eiddo preifat yn gyfreithlon a bod ganddynt gred resymol y gellid eu defnyddio mewn troseddau difrifol.**

**C6. A ydych yn cytuno bod y pŵer newydd arfaethedig yn angenrheidiol ac yn gymesur?**
Ydw

**Rhowch resymau** (uchafswm 250 o eiriau)
Rydym yn pryderu ar hyn o bryd, pan fo rhywun yn dioddef camdriniaeth ddomestig neu gamdriniaeth ddomestig a amheuir, gan gynnwys trais gan blentyn tuag at riant, hyd yn oed pan gaiff eitem lafnog ei nodi, ni ellir ei chymryd, ac o ystyried ein canolbwynt yng Nghymru ar atal achosion pellach neu ddwysáu, byddai'r gallu i gymryd eitemau fel pe bai'n briodol hefyd.

Pan fo unrhyw weithgarwch troseddu cyfundrefnol neu ddiamddiffynedd mewn aelwyd, byddem yn disgwyl gallu dilyn camau diogelu priodol, ond dylid ystyried yr holl amgylchiadau. Mae'n bosibl y bydd achosion o feddiannu cartrefi pobl ddiamddiffyn i hwyluso camfanteisio a bod gan yr unigolyn lafn fel diogelwch gan eu bod yn teimlo'n anniogel yn eu cartref. Gallai cymryd eitem o'r fath fod yn arwydd bod yr heddlu wedi bod yn yr eiddo. Er na fyddem fyth yn esgusodi defnyddio arf, ni fyddem chwaith am roi unigolyn diamddiffyn mewn sefyllfa waeth.

**C7. Rydym yn gwahodd barnau ynghylch a ddylai'r pwerau fod yn berthnasol i unrhyw gyllell mewn eiddo preifat neu ddim ond i gyllyll o hyd penodol.**
**a) Unrhyw gyllell a gedwir mewn eiddo preifat - Ydw**
b) Cyllyll o hyd penodol

**Rhowch resymau** (uchafswm 250 o eiriau)
Unrhyw gyllell na ellir dangos bod defnydd dilys ar ei chyfer naill ai ar gyfer hobi, fel naddu pren neu ar gyfer dibenion proffesiynol fel ffermio neu blygu gwrychoedd neu drin coed, neu a ddefnyddir ar gyfer coginio yn y cartref yn unig a bod modd dangos ei bod yn cael ei defnyddio fel hyn. Mae angen golchi offer coginio gan gynnwys

cyllyll ar ôl paratoi bwyd gan ddefnyddio dŵr a chynnyrch glanhau arferol sy'n ddiogel gyda bwyd, tra bod llafnau a ddefnyddir ar gyfer dibenion eraill yn cael eu glanhau a'u trin gan ddefnyddio olewau neu hylif glanhau sy'n cynnwys alcohol.

**C8. Rydym yn gwahodd barnau gan ymatebwyr ynghylch a ddylai fod hawl i apelio i'r llysoedd er mwyn adennill eitem a atafaelwyd neu a ddylai'r llwybr unioni fod drwy broses gwyno'r heddlu yn unig. Rhowch resymau** (uchafswm 250 o eiriau)
Dylai'r un hawliau apelio fod yn berthnasol ag ar gyfer eitemau eraill, sef caniatáu apêl i'r llysoedd yn ogystal â thrwy broses gwynion yr heddlu, a dylai hyn sicrhau tryloywder a thegwch.

**Cynnig 3 – Cynyddu'r gosb uchaf am droseddau gwerthu ac ati arfau gwaharddedig a pheryglus a gwerthu cyllyll i bobl o dan 18 i 2 flynedd.**

**C9. A ydych yn credu bod y troseddau o werthu cyllyll i bobl o dan 18 oed a gwerthu arfau ymosodol gwaharddedig mor ddifrifol fel y dylent gael cosb uchaf o 2 flynedd?**
Ydw

**Rhowch resymau** (uchafswm 250 o eiriau)
Mewn egwyddor, rydym yn cytuno â'r cynnig hwn, ond rydym yn disgwyl y bydd rhai meysydd yn destun eithriad neu ddisgresiwn, ar sail amgylchiadau. Dylai person ifanc neu brentis sy'n gadael yr ysgol yn 16 oed allu cael yr offer ar gyfer y proffesiwn maen nhw'n gweithio ynddo, ond dylid dangos tystiolaeth oherwydd ni fyddent yn gweithio ar eu pen eu hunain.

Gallai gofalwyr ifanc fod yn eithriad arall, a rhai sy'n gofalu am rieni neu neiniau a theidiau fel prif ofalwr, gan gynnwys coginio. Efallai mai nhw sy'n coginio a siopa ac mae'n bosibl y bydd yr unigolyn sy'n gwerthu cyllell cegin iddynt yn gwybod eu bod yn cyflawni'r rôl hon.

Credwn y dylai gwerthu arfau ymosodol wedi'u gwahardd arwain at ddedfryd o bedair neu bum mlynedd o leiaf, a fyddai'n dod yn nes at ddeddfwriaeth o ran meddiannu gynnau.

**Cynnig 4: A ddylai'r System Cyfiawnder Troseddol drin meddiant cyhoeddus o gyllyll gwaharddedig ac arfau ymosodol yn fwy difrifol.**

**C10. A ddylai'r System Cyfiawnder Troseddol drin y rhai sy'n cario cyllyll ac arfau ymosodol gwaharddedig yn gyhoeddus yn fwy difrifol?**
Na ddylai

**Rhowch resymau** (uchafswm 250 o eiriau)
Mae'r System Cyfiawnder Troseddol yn trin troseddau o'r fath o ddifrif eisoes, fodd bynnag, byddai uchafswm dedfryd uwch yn rhoi mwy o hyblygrwydd iddynt i ymateb yn briodol yn seiliedig ar yr amgylchiadau unigol.

**Cynnig 5: Trosedd meddiant newydd o eitemau llafnog gyda'r bwriad o beryglu bywyd neu achosi ofn trais.**

**C11. A ydych yn cytuno â'r cynnig?**
Ydw

**Rhowch resymau** (uchafswm 250 o eiriau)
Mewn egwyddor, rydym yn cytuno â'r cynnig i alinio deddfwriaeth eitemau llafnog yn agosach â deddfwriaeth arfau tanio. Gellir defnyddio arfau tanio ac eitemau llafnog i achosi anafiadau gan gynnwys anafiadau sy'n newid bywydau a lladdiadau.

**Busnes a Masnach**
**Cynnig 1 - Gwahardd rhai mathau o gyllyll a machetes yr ydym yn awgrymu nad oes ganddynt unrhyw ddefnydd ymarferol ac sy'n ymddangos fel pe byddent wedi'u dylunio i edrych yn fygythiol ac yn addas ar gyfer ymladd.**

**Wrth sôn am 'lafnau o fewn cwmpas', rydym yn golygu llafnau pigfain miniog sefydlog, gyda llafnau o leiaf 8" o hyd, sy'n cynnwys o leiaf dwy o'r nodweddion canlynol:**
- **Min torri plaen**
- **Min torri danheddog**
- **Mwy nag un twll yn y llafn**

**C12. A yw eich sefydliad yn gweithgynhyrchwr, cyfanwerthwr neu fanwerthwr llafnau sydd o fewn cwmpas (gweler y disgrifiad uchod)? Ticiwch bob un sy'n berthnasol**
Dim un (neidio i C18)

[Dilewyd cwestiynau 13, 14, 15 nad ydynt yn berthnasol]

**C18. A oes unrhyw effeithiau busnes neu fasnach pellach ynghylch y cynnig hwn (y tu hwnt i'r rhai a nodir yn yr Asesiad Effaith) nad ydynt wedi'u hystyried?**
Dim sylwadau ar effeithiau busnes fasnach.

**Cynnig 3 - Cynyddu'r gosb uchaf am droseddau gwerthu arfau gwaharddedig a pheryglus a gwerthu cyllyll i bersonau o dan 18 i gosb uchaf o 2 flynedd.**

**Drwy gynyddu uchafswm y ddefryd ar gyfer y troseddau hyn i 2 flynedd, ni fyddai'r rhain bellach yn droseddau diannod yn unig. Ni fyddai'r heddlu bellach yn cael ei gyfyngu i 6 mis i ymchwilio i'r achosion hyn. Mae hyn yn golygu y gallai fod angen i fanwerthwyr gadw tystiolaeth yn ymwneud â gwerthu cyllyll (e.e. dogfennaeth prawf oedran) am fwy na chwe mis ar ôl y pwynt gwerthu.**

**C19. Beth fyddai costau gweinyddol y cynnig hwn (e.e. diogelu data ac arferion cadw cofnodion) i'ch busnes, os o gwbl?**
Ddim yn berthnasol.

**C20. A oes unrhyw effeithiau busnes neu fasnach yn sgil y cynnig hwn (y tu hwnt i'r rhai a nodir yn yr Asesiad Effaith) nad ydynt wedi'u hystyried?**
Dim sylwadau ar effeithiau busnes fasnach.

**Cynigion eraill**

- **Cynnig 2 – Pŵer i atafaelu a chadw/dinistrio eitemau llafnog penodol a gedwir yn breifat os yw'r heddlu mewn eiddo preifat yn gyfreithlon a bod ganddynt gred resymol y byddant yn cael eu defnyddio mewn troseddau difrifol.**
- **Cynnig 4 – A ddylai'r System Cyfiawnder Troseddol drin meddiant yn gyhoeddus o gyllyll ac arfau ymosodol gwaharddedig yn fwy difrifol.**
- **Cynnig 5 – Trosedd meddiant newydd o eitemau llafnog gyda'r bwriad o beryglu bywyd neu achosi ofn trais.**

**C21. Nid yw'r Asesiad Effaith yn nodi unrhyw effeithiau busnes na masnach sy'n gysylltiedig â'r cynigion hyn. A oes unrhyw effeithiau busnes neu fasnach nad ydynt wedi'u hystyried?**
Y risg neu effaith bosibl ychwanegol os bydd unigolyn wedi prynu eitem am resymau dilys a'u bod yn ei chario tra byddant allan o'u man busnes neu waith, oherwydd nad ydynt wedi dychwelyd ar ôl ymweld â'r busnes neu fasnachwr eto. Dylai'r gwerthwr a'r prynwr gofnodi dyddiad ac amser prynu'r eitem ac os nad yw hyn yn cael ei wneud, gallai fod yn rhywbeth y byddai angen iddynt ei sicrhau trwy roi derbynebau, neu ddogfen danfon nwyddau, lle caiff anfonebau eu rhoi.

**C22. A oes gennych unrhyw sylwadau am y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn mewn perthynas â'r effaith ar nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010: oedran; anabledd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol?**
Oes

**Rhowch fanylion**. (uchafswm 500 o eiriau)
Er ein bod yn cytuno â'r cynigion mewn egwyddor, rydym hefyd yn pryderu bod nodweddion diamddiffyn ac amgylchiadau'n cael eu hystyried hefyd. Efallai nad yw eitem lafnog a gaiff ei storio yng nghartref unigolyn diamddiffyn yn eiddo iddyn nhw ac efallai bod eu cartref yn cael ei feddiannu i hwyluso camfanteisio neu eu bod yn destun mathau eraill o gamfanteisio ac nad ydynt yn ymwybodol o'r eitem, neu'n rhy ddiamddiffyn neu ofnus i allu gwrthod ei storio.
Gall rhywedd chwarae rôl hefyd, ynghyd â thrais ar sail rhywedd, lle gall troseddwyr neu ddioddefwyr eu defnyddio i amddiffyn eu hunain. Ni fyddem am i rhywun sydd wedi dioddef blynyddoedd o gamdriniaeth ac sy'n ddiamddiffyn o ganlyniad i hynny gael eu trin yn llym tra bydd y sawl sydd wedi eu cam-drin yn cael eu trin yn fwy trugarog.

**Amdanoch chi: gwybodaeth yr ymatebydd**
**Enw llawn:** Sarah Capstick
**Enw'r cwmni/sefydliad:** Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru
Rheolwr Datblygu Busnes a Rhwydwaith, Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru.
Mae’r Rhwydwaith yn cynnwys partneriaid sy’n ymwneud â darparu diogelwch cymunedol ledled Cymru gan gynnwys Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, Gwasanaethau’r Heddlu, Gwasanaethau Tân ac Achub, Cynghorau, y Gwasanaeth Prawf a’r Trydydd Sector (gan gynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig).

**Manylion cyswllt:**
**Cyfeiriad ebost:** sarah.capstick@wlga.gov.uk or cymunedaumwydiogel@wlga.gov.uk